# CYNGOR SIR

## DYDD IAU, 22 HYDREF 2020

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd I.W. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.M. Allen | L.R. Bowen | K.V. Broom | C.A. Campbell |
| J.M. Charles | D.M. Cundy | S.A. Curry | W.R.A. Davies |
| T.A.J. Davies | G. Davies | H.L. Davies | I.W. Davies |
| J.A. Davies | E. Dole | J.S. Edmunds | P.M. Edwards |
| D.C. Evans | H.A.L. Evans | L.D. Evans | W.T. Evans |
| A.L. Fox | S.J.G. Gilasbey | P. Hughes-Griffiths | A.D. Harries |
| T.M. Higgins | J.K. Howell | A. James | J.D. James |
| R. James | D.M. Jenkins | J.P. Jenkins | G.H. John |
| C. Jones | B.W. Jones | D. Jones | G.R. Jones |
| A. Lenny | M.J.A. Lewis | K. Lloyd | K. Madge |
| S. Matthews | A.S.J. McPherson | E. Morgan | A.G. Morgan |
| S. Najmi | D. Nicholas | B.D.J. Phillips | J.S. Phillips |
| D. Price | J.G. Prosser | H.B. Shepardson | A.D.T. Speake |
| L.M. Stephens | B. Thomas | D. Thomas | E.G. Thomas |
| G.B. Thomas | G. Thomas | J. Tremlett | D.T. Williams |
| J.E. Williams | | | |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
W. Walters, Prif Weithredwr
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
G. Jones, Peiriannydd Cymorth Digidol
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
L Morris, Uwch Swyddog Y Wasg
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
N. Evans, Rheolwr Cymorth Busnes
N. Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol

S Burford, Rheolwr y Prosiect
L. Jones, Performance & Information Officer
R. C. Reynolds, Project Officer

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 2.00 - 5.30 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar, C.A. Davies, K. Davies, S. Davies, R. Evans, C.J. Harris, H.I. Jones, T.J. Jones, B.A.L. Roberts, E.M.J.G. Schiavone ac A. Vaughan-Owen.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Lloyd | 7.1 – Rhybudd o Gynnig | Mae ef a'i gymdeithion personol agos yn aelodau ac yn dal cyfranddaliadau yn Carmarthenshire Energy Ltd. Wedi cael caniatâd i siarad ond nid pleidleisio ar faterion amgylcheddol cyffredinol ond nid materion sy'n ymwneud yn benodol â Carmarthenshire Energy Limited. |
| K. Broom | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| C. Campbell | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| J.M. Charles | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| A. Davies | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| W.T Evans | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| K. Howell | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| A. James | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| J. Lewis | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| A.G. Morgan | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Buddiant ariannol gan ei fod yn denant yn y Llynnoedd Delta a'i fod yn rhedeg busnes yno. Bydd yn ymatal rhag pleidleisio. |
| G.B. Thomas | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| J.E. Williams | 7.2 – Rhybudd o Gynnig | Wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ond nid pleidleisio mewn perthynas ag unrhyw fusnes Cyngor sy'n ymwneud â ffermio a materion ffermio yn gyffredinol. |
| K. Madge | 9.1 – Adroddiad Blynyddol CSC 2019/20 | Mae ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol. |
| A.G. Morgan | 14 – Pentre Awel | Mae'n denant yn y Llynnoedd Delta ac yn rhedeg busnes yno. |

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

Estynnodd y Cadeirydd gydymdeimlad ar ran yr aelodau i'r Cynghorydd Fozia Akhtar ar farwolaeth drist ei mab fis diwethaf ac i'r Cynghorydd Rob Evans ar farwolaeth ei dad yn gynharach yn y dydd.

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Estynnwyd y dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Cynghorydd Louvain Roberts yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar ac i'r Cynghorydd Jim Jones a oedd hefyd yn gwella ar ôl llawdriniaeth ddiweddar;

- Llongyfarchwyd i Lyndsay Jayne McNicholl, Rheolwr Cartref Gofal Llys y Bryn yn Llanelli y dyfarnwyd BEM iddi yn ddiweddar yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines am wasanaethau i Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod Covid-19.

- Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i'r bobl ganlynol o Sir Gaerfyrddin a dderbyniodd wobrau hefyd yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines:-

**MBE:**

Yr Hybarch Rachel Hannah Eileen Davies, Sylfaenydd Tir Diew am wasanaethau i Ffermio yng Ngorllewin Cymru

Paul David Harries am wasanaethau i Beirianneg a Chyflogaeth yng Ngorllewin Cymru

George Parker am wasanaethau i'r busnes a'r gymuned yn Llanelli

**Medal yr Ymerodraeth Brydeinig:**

Paul Christopher Alan Buckingham am wasanaethau i'r GIG yng Nghymru yn ystod Covid-19

Jack William Gibbins, Arweinydd Tactegol gydag Ambiwlans Sant Ioan (Cymru) am wasanaethau i'r gymuned yn ystod Covid-19

Nigel Williams am wasanaethau i Lywodraeth Leol yn Abertawe yn ystod Covid-19

Phoebe Leigh McLavy, Aelod Tîm gyda WorldSkills UK am wasanaethau i Gystadleuaeth WorldSkills

- Diolchodd y Cynghorydd Gary Jones i'r bobl ganlynol am eu cymorth o ran y ddamwain trên yn Llangennech:
  - Nicky Lloyd, Is-gadeirydd Canolfan Gymunedol Llangennech;
  - Rheolwr Nos McDonalds am roi te a choffi yn hael;
  - Jaqueline Seward, Cynghorydd Cymuned;
  - Alun James, Gofalwr;
  - Alun Bowen, Gofalwr;
  - Rob Willock, Cynghorydd Cymuned a'r
  - Cynghorydd Gwyneth Thomas.

- Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd i annerch y Cyngor gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Covid-19 yn y Sir. Ynghyd â'r diweddariad cafwyd fideo byr "Voices from the Front Line" a oedd yn rhoi cipolwg ar brofiadau ein staff cartrefi gofal yn ystod y pandemig.

**4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 9 MEDI 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Medi 2020 gan eu bod yn gywir.**

**5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-**

## 6.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ALUN LENNY I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR

"Dywedodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ddiweddar fod bron i 700,000 o bobl mewn sefyllfa lle roeddent yn ddi-waith rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf oherwydd Covid-19. Erbyn diwedd mis Gorffennaf, roedd diweithdra wedi cynyddu i fwy na 4%. Gan fod y cynllun ffyrlo yn dod i ben ar ddiwedd y mis hwn (31 Hydref), mae'n anochel y bydd diweithdra'n cynyddu eto. Rhaid derbyn ein bod yn wynebu gaeaf anodd. Felly, o gofio hyn, a yw'r Awdurdod hwn yn hyderus bod digon o gymorth lles yn bod i'w drigolion a bod y cymorth hwn ar gael yn hwylus?"

**Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-**

A allaf i ddiolch yn gyntaf i'r Cynghorydd Lenny am ei gwestiwn; cwestiwn rwy'n ei groesawu ar yr adeg dyngedfennol hon. Mae'n gwbl berthnasol i'r hyn rydym wedi bod yn ei wneud, yn ogystal â'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud, o ran ein rhaglen adfer ar gyfer Covid-19. Mae'r rhaglen adfer honno yn ymateb i realiti difrifol yr effaith mae Covid-19 wedi ei chael, ac yn parhau i'w chael, ar ein heconomi a'n cymunedau, ynghyd â'r problemau bydd ein pobl yn Sir Gaerfyrddin yn eu hwynebu o ganlyniad. Rydym yn paratoi cynllun Trechu Tlodi ar hyn o bryd. Bydd llawer o'r cynllun hwnnw'n ymwneud â chymorth lles wrth gwrs. Yn ogystal â bod yn ddadansoddiad o anghenion fe fydd yn gynllun gweithredu – beth allwn ni ei wneud i wella'r sefyllfa a wynebir gan bobl, ynghyd â pha gamau mae angen i ni eu cymryd er mwyn gwneud cynnydd a chyfrannu at ddatrys y problemau gwirioneddol fydd gan gynifer o bobl.

Fe wyddoch mai un o fy mhenderfyniadau cyntaf fel Arweinydd oedd gwrthdroi penderfyniad fy rhagflaenydd i ddychwelyd y ddesg flaen dros dro yng nghanol tref Llanelli i Dŷ Elwyn. Penderfynais y dylai aros yng nghanol y dref, a sefydlwyd yr Hwb yn Stryd Vaughan, gan roi cyngor a chymorth i bobl ar amryw o'n gwasanaethau Cyngor, gan gynnwys desg arian parod, cymorth tai, rhaglenni ymgysylltu â chyflogaeth, a chyfleusterau TG i helpu pobl sy'n chwilio am gyfleoedd cyflogaeth, addysg, prentisiaethau a gwirfoddoli. Daw cannoedd o bobl drwy'r drysau bob wythnos gan helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref. Ers hynny mae cyfleuster Hwb tebyg wedi'i sefydlu yng nghanol tref Rhydaman ac yn ein swyddfeydd yn Heol Spilman yng Nghaerfyrddin.

Mae nifer o gynlluniau cymorth cyflogadwyedd yn cael eu darparu yn Sir Gaerfyrddin, ac mae rhai ohonynt yn cael eu darparu gan Gyngor Sir Caerfyrddin, gydag eraill yn cael eu cydgysylltu gan Gyrfa Cymru o dan borth Cymru'n Gweithio. Dau o'r cynlluniau rydym yn eu darparu yw Gweithffyrdd + a Chymunedau am Waith.

Nod Gweithffyrdd + yw gwella cyflogadwyedd Pobl Economaidd Anweithgar a Phobl Ddi-waith yn y Tymor Hir/Tymor Byr sy'n 25 oed a hŷn ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth o ran cyflogaeth. Mae Tîm Gweithffyrdd + yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin gyfan ac wedi'i leoli yn y Canolfannau Hwb yng

Nghaerfyrddin, Llanelli a Rhydaman. Bydd pob cyfranogwr yn cael cymorth drwy ddarpariaeth fentora bersonol, a chymorth drwy Swyddogion Cyswllt â Chyflogwyr i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth sy'n cyd-fynd â thueddiadau'r farchnad lafur.

Mae Cymunedau am Waith yn canolbwyntio ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac yn darparu cymorth 1 i 1, arweiniad a hyfforddiant. Mae'r rhaglen yn gallu cynnig cymorth yn y gymuned, ariannu hyfforddiant heb rwystrau i helpu pobl i gael hyfforddiant neu waith, ac yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau partner allweddol. Mae'r tîm yn gweithio ar sail allgymorth ar draws cymunedau, gyda safleoedd yn Hwb Llanelli a Hwb Rhydaman.

Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn darparu cyngor arbenigol am gyflogaeth a gwasanaeth mentora dwys i bobl sydd naill ai mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cymunedau am Waith, PaCE neu raglenni rhanbarthol eraill a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.

Creu cyfleoedd a fydd yn gwella sgiliau unigolion drwy gymorth hyfforddiant galwedigaethol a sgiliau sylfaenol, sesiynau blas ar waith, lleoliadau gwaith a chefnogaeth i sicrhau swyddi a hyfforddiant cynaliadwy.

Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cymryd rhan yn Rhaglen Lleoliadau Gwaith Kickstart - Fel rhan o gynllun y llywodraeth i gynyddu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc, crëwyd Cynllun newydd gwerth £2 biliwn Kickstart i gefnogi cannoedd o filoedd o leoliadau gwaith newydd â chymhorthdal llawn i bobl ifanc ledled y wlad.

Mae'r lleoliadau 6 mis yn agored i bobl ifanc 16-24 oed sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith yn y tymor hir. Bydd y rhain ar gael ar draws ystod o wahanol sectorau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r lleoliadau gwaith cyntaf yn debygol o fod ar gael o fis Tachwedd ymlaen. Bydd yn rhaid i sefydliadau a busnesau sy'n cofrestru ar gyfer y rhaglen hon ymrwymo i 30 o swyddi newydd o leiaf. Nid oes llawer o fusnesau yn Sir Gaerfyrddin sy'n ddigon o faint i allu ymrwymo i hynny. Felly mae'r Cyngor yn ceisio cefnogi busnesau sy'n cynnig llai na 30 o swyddi drwy weithredu fel cyfryngwr i hwyluso'r isafswm gofynnol o 30 o swyddi ar draws nifer o fusnesau, a hefyd fel cyflogwr, fel y gall y Cyngor gynnig lleoliadau uniongyrchol. Dengys ymgysylltu cychwynnol â busnesau lleol fod dyhead cadarnhaol am y cynllun hwnnw.
O blith y rhai y cysylltwyd â nhw hyd yn hyn, mae 58 o gwmnïau wedi dweud y gallent ddarparu ar gyfer cyfanswm o 110 o leoliadau, a chyda rhagor o ymgysylltu a marchnata rhagwelir y bydd y nifer hwn ond yn cynyddu.

Mae'r cyngor yn darparu cymorth ariannol i nifer o asiantaethau partner megis Gofal a Thrwsio, sy'n cynnig atgyweiriadau ac addasiadau. Yn ogystal, mae'n gwirio'r hyn y mae gan rywun hawl i'w gael ac yn cyfeirio pobl at asiantaethau partner sy'n eu cefnogi wrth iddynt ymgeisio am fudd-daliadau nad oeddent yn eu hawlio.

Rydym hefyd yn ariannu Shelter Cymru sy'n cynnig cyngor am ddyled a budd-daliadau ar draws deiliadaethau ar gyfer achosion anodd a chymhleth. Gall unrhyw un hunanatgyfeirio neu gellir gwneud atgyfeiriadau gan sefydliadau sy'n nodi materion dyled neu fudd-daliadau lles sy'n fwy cymhleth na'r hyn y gallant ymdrin â nhw. Efallai eich bod eisoes yn gwybod bod Shelter Cymru wedi'i leoli yn ein Tîm Tai ym Mhorth y Dwyrain - fel y mae'r Wallich a Gofal a Thrwsio.

Gallwn enwi eraill a ariennir gennym ni megis Cyngor ar Bopeth, sy'n darparu asesiadau hawlio, ceisiadau am baratoi budd-daliadau, apeliadau a thribiwnlysoedd.

Mae cymorth hyblyg, a gomisiynir drwy gefnogi pobl, yn cynnig cyngor a chymorth ar Gymorth Tenantiaeth, Manteisio'n Llawn ar Fudd-daliadau a Lles, a Chyllidebu. Byddai'r un peth yn wir am bob darparwr cymorth fel y Wallich, Pobl - sydd hefyd ym Mhorth y Dwyrain gyda'n tîm, NACRO, CTAP, y Gwasanaeth Troseddwyr a'r Gwasanaethau Cam-drin Domestig. Dyma oedd diben y grant yn y bôn.

Age Cymru Dyfed - Yn darparu gwasanaethau sy'n gwella bywyd a chymorth hanfodol i bobl yn ddiweddarach yn eu bywyd, sy'n cynnwys Iechyd a Llesiant yn ogystal â rhaglen Cartrefi Cynnes a gwasanaethau Manteisio i'r Eithaf ar Fudd-daliadau.

Catch-up - Yn cynnig gwasanaeth gwybodaeth a chyngor am fudd-daliadau lles i unigolion a'u gofalwyr sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin. Gellir rhoi cymorth o ran llenwi ffurflenni, adolygiadau ac apeliadau ar gyfer y rhan fwyaf o fudd-daliadau. Mae swyddfa yn Llanelli a Chaerfyrddin. Er nad yw'r Cyngor yn ariannu Age Cymru a Catch-up, mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda nhw, gan wneud atgyfeiriadau i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n preswylwyr.

Mae gan dîm Dewisiadau a Chyngor y Cyngor rôl gydgysylltu o ran sicrhau bod cleientiaid sydd mewn trafferthion yn cael cyngor a chymorth ar fudd-daliadau lles.
Mae problemau fforddiadwyedd a dyled yn mynd law yn llaw â llawer o'r ymholiadau tai sy'n dod i law. Gall staff adnabod problemau sy'n aml yn guddiedig am nad y rhain yw'r prif reswm dros yr alwad.

Mae ein Swyddogion Dewisiadau a Chyngor yn rhoi Cyngor ynghylch Tai i unrhyw un sydd angen cymorth â thai, ac yn cynnig cyngor ataliol i osgoi digartrefedd, sy'n cynnwys cyngor am fudd-daliadau lles a chyllidebu. Mae staff hefyd yn cyfeirio pobl at y darparwyr cymorth hyblyg sydd eisoes wedi'u crybwyll i gael cymorth ychwanegol, neu mewn achosion mwy cymhleth, at y tîm Shelter Dab a sefydlwyd gan y tîm ar y cyd â Chefnogi Pobl.

Yn ystod Covid-19 sefydlodd Dewisiadau a Chyngor Dîm Cyngor Pellach i roi cyngor am fudd-daliadau i bobl yr oedd Covid-19 wedi effeithio arnynt ac nad oeddent yn gwybod sut oedd gwneud y defnydd mwyaf o'r system fudd-daliadau.

Mae tîm Cyn-denantiaeth yn rhoi cyngor a chymorth i denantiaid newydd yn yr Is-adran Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel. Mae'r tîm yn:

- Darparu cyngor am Fudd-dal Lles i sicrhau bod tenantiaid yn hawlio'r budd-dal cywir.
- Sicrhau, os bydd angen i'r tenant symud ymlaen i Gredyd Cynhwysol, fod hawliadau'n cael eu gwneud yn brydlon, yn unol â dyddiadau dechrau'r denantiaeth.
- Cwblhau ffurflenni Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a mandadau Debyd Uniongyrchol.
- Yn dibynnu ar gymhwysedd, mae ceisiadau grant i'r Gronfa Cymorth Dewisol a Thaliadau Disgresiwn at Gostau Tai yn cael eu gwneud.
- Rhoi cyngor am gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim a grantiau gwisg ysgol.

  O fewn tîm Cymorth Tenantiaethau Dewisiadau a Chyngor, mae gennym nifer sylweddol o staff sy'n gallu darparu cyngor cynhwysfawr ar Fudd-dal Lles. Mae'r swyddogion hyn hefyd yn helpu tenantiaid i:
  - wneud ceisiadau am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai
  - gwneud ceisiadau Help-U i leihau cost eu trethi dŵr
  - cwblhau ffurflenni Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
  - cael cymorth o ran effeithlonrwydd ynni

    Maent hefyd yn rhoi cyngor am fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a grantiau gwisg ysgol.

Mae Gosod Syml yn rheoli eiddo ar ran landlordiaid preifat ac mae'r Swyddogion Cymorth Tenantiaeth sy'n gweithio yn y tîm hwn yn darparu'r un gwasanaethau i denantiaid y Sector Tai Rhent Preifat ag y mae'r Swyddogion Cymorth Tenantiaeth yn ei wneud i Denantiaid y Cyngor. Hoffwn gadarnhau ein bod yn cynnig y cyngor hwn i'n tenantiaid a'n tenantiaid preifat ledled y sir.

Caiff ein holl Swyddogion Cymorth Tenantiaeth, Cynghorwyr Dewisiadau a Swyddogion Tai eu dilysu i ddyrannu talebau bwyd, ac yn aml maent yn dosbarthu'r rhain i'r tenantiaid hynny nad ydynt yn gallu casglu parseli. Rydym hefyd yn anfon talebau electronig at unrhyw un sydd angen parsel brys.

Yn ein Tîm Refeniw a Budd-daliadau, mae gennym Swyddog Cyllidebu Personol sy'n darparu cymorth ariannol traws deiliadaeth, sy'n cynnwys:

- Cyngor ar fanteisio i'r eithaf ar fudd-daliadau;
- Helpu defnyddwyr gwasanaethau i nodi ble y gellir lleihau gwariant a sut;
- Cyfeirio at ddarparwyr cymorth arbenigol fel Catchup, Shelter Cymru, personél effeithlonrwydd ynni neu ddarparwyr cymorth hyblyg yn y gymuned;
- Ymgeisio am grantiau Cronfa Cymorth Dewisol;
- Gostyngiadau Help-U gan Dŵr Cymru;

- Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai a
- Rhoi talebau banc bwyd.

Y pwynt rwy'n ei wneud yma yw ein bod yn gwbl barod i fod yn rhagweithiol gyda'n rhaglen gydweithredol, drwy gynnwys eraill yn ein timau ym maes tai a'r canolfannau hwb ac ati a sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i bobl ba fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt a sut i wneud cais yn llwyddiannus.

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Alun Lenny:**

Mae rhai Awdurdodau Lleol cyfagos wedi dewis un pwynt mynediad canolog ar gyfer cymorth lles. A oes rhesymau pam nad yw hyn yn cael ei ystyried yn opsiwn yn Sir Gaerfyrddin?

**Ymateb gan y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd y Cyngor:-**

Rwy'n ymwybodol fod rhai Awdurdodau Lleol wedi creu un pwynt mynediad a gallaf weld sut y gallai hynny weithio mewn ardaloedd lle mae un pwynt canolog ar gael yn gyfleus i bawb – ac efallai fod hynny'n gweithio'n dda iddyn nhw. Fodd bynnag byddai gwneud hynny yn Sir Gaerfyrddin, yn fy marn i, yn cynyddu caledi ac yn golygu bod y cymorth a amlinellwyd yn fy ymateb gwreiddiol ddim ar gael mor hwylus i bobl.

Nid oes bwriad gennyf i greu un uned ganolog, a byddai symud staff o swyddi integredig a strategol i ryw uned ganolog yn wrthgynhyrchiol. Byddai hefyd yn arwain yn anochel at dynnu cyllid o sefydliadau'r trydydd sector er mwyn ariannu'r uned ganolog hon. Felly, byddaf yn parhau i ofyn ac asesu pa mor dda y mae'r trydydd sector yn darparu'r gwasanaethau a ariennir gennym.

Dywedoch yn eich cwestiwn gwreiddiol fod gennym aeaf anodd o'n blaenau, ac er bod hynny'n wir mewn sawl ystyr, hoffwn eich sicrhau bod gennym wasanaethau i gefnogi ein trigolion ym mhob cwr o'r sir a bod gennym gynlluniau ar waith, ac y byddwn yn parhau i gynllunio, i sicrhau bod y cymorth hwn yn parhau.

Gwn ein bod ni fel Aelodau'n cael galwadau, llythyrau, a negeseuon e-bost gan drigolion pan fyddant yn wynebu anawsterau. Byddwn yn eich annog i ymgyfarwyddo â'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gennym, fel y gallwch chi helpu i gefnogi'r rhai sy'n wynebu caledi a sicrhau nad ydynt yn syrthio drwy'r rhwyd.

**7. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-**

**7.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD ALUN LENNY**

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Lloyd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Alun Lenny:

"Cais i Lywodraeth Cymru am adolygiad o'r polisi Datblygiad Un Blaned

Cafodd y polisi Datblygiad Un Blaned ei roi ar waith gan Lywodraeth Cymru'n Un yn 2010 ac mae'n rhan o Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6 –Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy. Mae gan y polisi amcan clodwiw sef y dylai Cymru, o fewn un genhedlaeth, ond ddefnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear. Mewn egwyddor, mae'n cydymffurfio â'r hyn a gytunwyd gennym yn ystod cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2019 i ddatgan argyfwng hinsawdd ac ymrwymo i wneud Cyngor Sir Caerfyrddin yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030.

Fodd bynnag, yn ymarferol, mae Datblygiad Un Blaned yn peri problemau am dri rheswm penodol:-

1. Mae canfyddiad cyffredin bod y polisi'n cael ei ddefnyddio i ddiystyru'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae hyn wedi arwain at gryn ddrwgdeimlad gan drigolion gwledig sy'n ei chael yn anodd – os nad yn amhosibl – i adeiladu cartref newydd ar gyfer y genhedlaeth iau ar eu tir.

2. Mae TAN 6 yn nodi y gellid ond caniatáu annedd yng nghefn gwlad os yw'n cefnogi menter wledig sydd eisoes wedi'i sefydlu am o leiaf dair blynedd ac sydd wedi profi ei bod yn gynaliadwy. Nid yw cais am Ddatblygiad Un Blaned yn seiliedig ar dystiolaeth flaenorol, ond ar gynllun rheoli sy'n ceisio rhagweld llwyddiant y datblygiad dros gyfnod o 5 mlynedd ar ôl rhoi caniatâd cynllunio.

3. Rhaid cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r cynllun rheoli. Gallai methu â bodloni telerau'r cynllun arwain at achosion gorfodi. Fodd bynnag, mae monitro cydymffurfiaeth yn peri problemau, oherwydd diffyg arbenigedd mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol.

Cred Cyngor Sir Caerfyrddin fod y polisi Datblygiad Un Blaned, er ei fwriad clodwiw pan gafodd ei roi ar waith 10 mlynedd yn ôl, yn peri problemau ymarferol. Wrth ystyried y pryder cynyddol am y ffordd y mae'r polisi hwn yn cael ei weithredu, effaith gronnol datblygiadau o'r fath, a'r problemau o ran monitro, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r polisi ac ystyried gosod moratoriwm ar geisiadau Datblygiad Un Blaned wrth i adolygiad o'r fath gael ei gynnal. Rydym hefyd yn awgrymu y dylai adolygiad o'r fath ystyried a ellid cynnwys rhai elfennau o'r Datblygiad Un Blaned, sy'n ymwneud ag arferion cynaliadwy, mewn polisïau cynllunio prif ffrwd mewn ffordd fwy radical, er mwyn cael effaith ehangach ar leihau allyriadau carbon.

Eiliwyd y Cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau o blaid ac yn erbyn y Cynnig ac ar ôl cynnal pleidlais,

**PENDERFYNWYD bod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei fabwysiadu.**

### 7.2. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES

[**SYLWER:**

- Roedd y Cynghorydd A.G. Morgan wedi datgan buddiant ariannol yn y cynnig hwn.
- Yn dilyn cyngor gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith, roedd y Cynghorwyr K. Broom, C. Campbell, J.M Charles, A. Davies, W.T. Evans, K. Howell, A. James, J. Lewis, G. B. Thomas, J.E. Williams wedi datgan buddiant yn yr eitem hon a nodir yng Nghofnod 2.]

Yn dilyn trafodaeth ar y Cynnig a'r Gwelliant, dywedodd y Cynghorydd James wrth y Cyngor ei fod yn tynnu ei Rybudd o Gynnig yn ôl.

## 8. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYFANFSODDIAD

Er mwyn cydymffurfio â Deddfau Llywodraeth Leol 1972 a 2000, a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei Gyfansoddiad yn flynyddol ac felly sefydlodd y Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad i gyflwyno argymhellion ar gyfer newid cyfansoddiadol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwelliannau fel yr argymhellwyd gan y Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad sy'n diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor. Bu'r Cyngor yn ystyried y gwelliannau fel y dangosir yn yr adroddiad ac amlygwyd y canlynol yn ei atodiadau:-

- Pwyllgorau Craffu Erthygl 6
- Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rhan 4.1
- Rheolau'r Weithdrefn Graffu, Rhan 4.5
- Protocol ar gyfer Cyfathrebu ag Aelodau Etholedig, Rhan 5.6

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

**8.1 Cymeradwyo a mabwysiadu argymhellion canlynol Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yn dilyn ei adolygiad blynyddol o'r Cyfansoddiad:-**

**a) Diwygio Erthygl 6 o'r Cyfansoddiad i ddiweddaru a 'thacluso' Meysydd Gorchwyl Craffu (yn unol ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru o ran gwneud Gwaith Craffu yn 'Addas at y Dyfodol')**

b) **Tynnu'n ôl y dirprwyaethau a roddwyd i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (nad ydynt erioed wedi'u harfer ganddynt) gyda golwg ar roi'r swyddogaeth i'r Bwrdd Gweithredol (Rhan 3 Tabl 4 Cyfrifoldeb am Swyddogaethau a Rhan 3. 2 Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)**

c) **Diweddaru Rheolau Gweithdrefn y Cyngor (Rhan 4.1) i nodi trefn agenda ddiwygiedig ar gyfer cyfarfodydd cyffredin y Cyngor ac i adlewyrchu presenoldeb o bell.**

d) **Diweddaru Rheolau'r Weithdrefn Graffu (Rhan 4.5) i adlewyrchu cyngor y Ganolfan Craffu Cyhoeddus y dylai Aelodau'r Bwrdd Gweithredol fynychu eu Pwyllgor Craffu priodol i gyflwyno eu hadroddiadau a chael eu dwyn i gyfrif.**

e) **Diweddaru Rhan 5.6 - Protocol ar gyfer cyfathrebu ag aelodau etholedig i adlewyrchu penderfyniad y Cyngor i gynnal cyfarfodydd di-bapur.**

**8.2 Bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw fân newidiadau, cywiro gwallau teipio neu wallau drafftio a sicrhau bod yr holl groesgyfeiriadau yn y Cyfansoddiad yn gywir ac y rhoddir gwybod am y rhain i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad pan fydd angen.**

**8.3 Bod Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn cael ei fabwysiadu, yn amodol ar argymhellion 8.3 a nodir uchod.**

## 9. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

### 9.1. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2019/20

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd K. Madge wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 (gweler cofnod 4), wedi ystyried adroddiad ar Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2019/2020 a luniwyd yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Dywedwyd bod pandemig Covid-19 wedi effeithio ar 6 wythnos olaf blwyddyn 2019/20 ac er bod yr adroddiad yn amlinellu amserlen y pandemig roedd yr Adroddiad Blynyddol yn canolbwyntio ar y rhan fwyaf o'r busnes arferol yn ystod y cyfnod.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

**"bod adroddiad blynyddol y cyngor ar gyfer 2019/20 yn cael ei gymeradwyo."**

## 9.2. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2019-2020

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2020 (gweler Cofnod 10), wedi ystyried Adroddiad Blynyddol 2019-2020 ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth, a luniwyd er mwyn cydymffurfio â Chôd Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys yn y Sector Cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

**"bod Adroddiad Blynyddol 2019/20 ynghylch Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys yn cael ei gymeradwyo."**

## 9.3. CYTUNDEB CYD-BWYLLGOR BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd gweithredol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 (gweler cofnod 6) wedi ystyried adroddiad ar adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i benderfyniad Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe i ddiwygio Cymal 5 o Atodlen 2020 o Gytundeb y Cyd-bwyllgor mewn perthynas â threfniadau Cworwm y Cyd-bwyllgor Craffu a oedd yn ymwneud â dileu Cymal 6 a'i ddisodli gyda'r canlynol:

"Ni fydd y Cworwm ar gyfer cyfarfodydd yn llai na 6 aelod, a rhaid iddo gynnwys o leiaf 1 aelod o bob un o'r 4 Awdurdod. Ni chaniateir i'r Cyd-bwyllgor Craffu fynd ati i graffu ar fater sy'n ymwneud â phrosiect os nad yw'r aelod sy'n cynrychioli'r Cyngor sy'n ymwneud â'r prosiect hwnnw yn bresennol yn y cyfarfod"

Dywedwyd cyn y gall unrhyw welliant i Gytundeb y Cyd-bwyllgor ddod i rym, byddai angen iddo gael ei ystyried yn y lle cyntaf gan y Cyd-bwyllgor ac yna ei osod gerbron pob un o'r 4 awdurdod lleol i'w ystyried a'i fabwysiadu. Yn unol â'r cytundeb hwnnw, roedd y Cyd-bwyllgor wedi ystyried y gwelliant ar 9 Gorffennaf 2020 ac roedd bellach yn cael ei gyflwyno i bob un o'r 4 awdurdod i'w cadarnhau

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

**"9.1 "gymeradwyo penderfyniad Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe i'r gwelliant o ran trefniadau cworwm y Cyd-bwyllgor Craffu, fel y nodir yn yr adroddiad;**

**9.2 awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith i wneud gweithred o amrywiad er mwyn gweithredu'r newidiadau i Gytundeb y Cyd-bwyllgor."**

## 9.4. FERSIWN ADNEUOL DRAFFT O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL DIWYGIEDIG SIR GAERFYRDDIN 2018 - 2033

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 (gweler cofnod 7) wedi ystyried adroddiad ar y Cytundeb Cyflawni diwygiedig a'r Diweddariad Covid-19 mewn perthynas â mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033.

Roedd y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2019 wedi cymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos (a gafodd ei ymestyn i 8 wythnos) ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuol 2018-2033 ynghyd â'i ddogfennau ategol (Asesu Rheoliadau Cynefinoedd ac Arfarniad Cynaliadwyedd) a dau Ganllaw Cynllunio Atodol drafft. Yn ogystal, roedd ymgynghoriad 3 wythnos wedi'i gynnal mewn ymateb i effaith y cyfyngiadau symud.

Roedd yr adroddiad cyfredol yn cynnwys effaith Covid 19 ar yr ymgynghoriad hwnnw a'r gwaith oedd yn mynd rhagddo o ran paratoi'r CDLl diwygiedig. Roedd hefyd yn ystyried goblygiadau'r achosion o coronafeirws ar yr amserlen ar gyfer mabwysiadu'r CDLl a'r cynnig i ddiwygio'r Cytundeb Cyflawni (a'i amserlen a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned) cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gytuno.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

**"10.1 Cymeradwyo cynnydd parhaus Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2018 – 2033 (a dogfennau ategol) a'r dull a amlinellir yn yr adroddiad;**

**10.2 Cymeradwyo Diwygio'r Cytundeb Cyflawni i gynnwys estyniad o 7 mis i'r amserlen a diwygiadau dilynol eraill gan gynnwys y rhai sy'n deillio o Covid-19;**

**10.3 Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion wneud addasiadau teipograffyddol, cartograffig a/neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Fersiwn Ddrafft o'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo."**

## 10. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:-

### 10.1. 7FED MEDI 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 7 Medi 2020.**

**10.2. 21AIN MEDI 2020**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2020.**

**10.3. 5ED HYDREF 2020**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020.**

**11. CADARNHAU'R NEWIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU:-**

**11.1. MAE'R GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD DAI THOMAS I LENWI'R LLE GWAG AR Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2(2)(n), roedd yr enwebiadau canlynol wedi dod i law gan y Grŵp Plaid Cymru a:

**PHENDERFYNWYD:-**

**11.1 bod y Cynghorydd Dai Thomas yn cael ei benodi i lenwi sedd wag Plaid Cymru ar y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio.**

**12. COFNODION ER GWYBODAETH**

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda 12.1 – 12.4 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

**13. NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf**

**14. PENTRE AWEL**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 12 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr**

**adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am bartneriaid academaidd posibl nad ydynt hyd yma wedi llofnodi memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda'r Awdurdod. Er y byddai'r budd i'r cyhoedd fel rheol yn ffafrio tryloywder a diffuantrwydd, roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn yr achos hwn hyd nes i'r memoranda cyd-ddealltwriaeth gael ei lofnodi yn drech na hynny.**

[NODER: Roedd y Cynghorydd A.G. Morgan wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2020 (gweler cofnod 13) wedi ystyried adroddiad a oedd yn rhoi datganiad diweddaru ynghylch Pentre Awel mewn perthynas â chyflwyno achos Busnes y Fargen Ddinesig, cytundebau gyda phartneriaid academaidd a datblygiad dylunio cam 1.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:**

**"Bod y Cyngor:**

**14.1 Cymeradwyo'r achos busnes terfynol (fel yr atodir yn atodiad 14.1) i'w gyflwyno'n ffurfiol i Gyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe i'w gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.**

**14.2 Cytuno a rhoi cymeradwyaeth i lofnodi'r Memorandwm o Ddealltwriaeth â phartneriaid academaidd. Nodi bod y trafodaethau hyn yn cyd-fynd â'r cynllunio cyffredinol ar gyfer addysg, sgiliau a hyfforddiant.**

**14.3 Cymeradwyo cwblhad gwaith datblygu dyluniadau manwl ac allbynnau RIBA Cam 14.3."**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**